Gwahaniaethau mewn amcangyfrifon sy'n ymwneud â sgiliau yn yr iaith Gymraeg

Lucy Haselden

Cangen Ethnigrwydd a Hunaniaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

1 Nodau'r papur

Mae cyfran y bobl sy'n gallu cyfathrebu yn Gymraeg o ddiddordeb mawr i wneuthurwyr polisi, yn enwedig yng Nghymru. Maent yn dymuno monitro'r cynlluniau sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg ac asesu'r manteision sy'n gysylltiedig â siarad Cymraeg.

Gan fod gwahaniaeth rhanbarthol mawr yn y defnydd o'r Gymraeg, mae'n rhaid monitro'r defnydd ar lefel awdurdodau lleol; felly mae angen ffynonellau data y gellir eu dadansoddi ar y lefel hon.

Y ddwy brif ffynhonnell bresennol ar gyfer y wybodaeth hon yw'r Cyfrifiad ac Arolwg Llafurlu Lleol Cymru (ALILIC). Mae'r ddwy ffynhonnell yn holi'r un cwestiynau syml ar ba un a yw'r ymatebydd yn gallu deall, siarad, darllen ac/neu ysgrifennu Cymraeg ac mae'r ddwy yn cynhyrchu data y gellir ei ddadansoddi ar lefel awdurdodau lleol. Fodd bynnag, maent yn cynhyrchu amcangyfrifon gwahanol iawn o ran nifer y bobl sy'n meddu ar y sgiliau hyn.

Felly, nod y papur hwn yw:

- nodi lefel y gwahaniaethau hyn;
- cynnig esboniadau posibl ar gyfer y gwahaniaethau hyn; a
- nodi pa un a yw'r naill ffynhonnell neu'r llall yn cyflwyno darlun gwell o sgiliau yn yr iaith Gymraeg.

2 Y cefndir i'r cwestiynau sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg

2.1 Cwestiwn yr iaith Gymraeg yng Nghyfrifiad 2001

Gofynnwyd cwestiwn ynglyn â'r iaith Gymraeg yng Nghymru ym mhob Cyfrifiad ers 1891.

Roedd y cwestiwn ynglyn â'r iaith Gymraeg yng Nghyfrifiad 2001 yn ymddangos yn union ar ôl y cwestiwn ynglyn ag ethnigrwydd a chefndir diwylliannol ar ffurflen y Cyfrifiad yng Nghymru. Roedd ychydig yn wahanol i gwestiwn 1991 oherwydd ei fod yn gofyn "Ydych chi'n gallu siarad Cymraeg?" yn hytrach nag "Ydych chi'n siarad Cymraeg?", a ofynnwyd ym 1991. Hefyd, gofynnodd i ymatebwyr a oeddent yn gallu deall Cymraeg llafar, cwestiwn nas cynhwyswyd yn flaenorol.

Y cwestiwn oedd:

Allwch chi ddeall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?

- ✔ pob blwch sy'n berthnasol
  - ❑ Deall Cymraeg llafar
  - ❑ Siarad Cymraeg
  - ❑ Darllen Cymraeg
  - ❑ Ysgrifennu Cymraeg
  - ❑ Dim un o'r uchod

Yn y cwestiwn ynglyn ag ethnigrwydd, a ymddangosodd yn union cyn y cwestiwn ynglyn â'r iaith Gymraeg, roedd blwch ticio ar gyfer 'Gwyn – Prydeinig' ond nid oedd un o'r blychau ticio yn cynnwys y geiriau 'Cymro/Cymraes'. Yn dilyn ymgyrch gan y cyfryngau yn erbyn absenoldeb blwch ticio ar gyfer 'Cymro/Cymraes', ymatebodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) drwy wahodd ymatebwyr i fynegi eu hunaniaeth Gymreig drwy ysgrifennu Cymro/Cymraes yn y categori 'Arall' perthnasol.

2.2 Y cwestiwn ynglyn â'r iaith Gymraeg yn Arolwg Gweithlu Llafur 2001

Yr Arolwg Llafurlu Ardaloedd Lleol Blynyddol (ALIALIB) yw'r arolwg cartrefi mwyaf yn y DU ac yn ddiweddar cynyddwyd maint y sampl er mwyn cynhyrchu amcangyfrifon dibynadwy ar lefel genedlaethol, rhanbarthol ac awdurdodau lleol. Yn benodol, cynyddwyd y sampl yng Nghymru er mwyn hwyluso'r broses ddadansoddi ar lefel awdurdodau lleol. Gelwir y rhan hon o'r arolwg yn Arolwg Llafurlu Lleol Cymru (ALILIC).

Cyflwynwyd set o gwestiynau ynglyn â sgiliau yn yr iaith Gymraeg ym mis Mawrth 2001. Fe'u cynlluniwyd er mwyn bod mor debyg â phosibl i'r cwestiwn yng Nghyfrifiad 2001 ond gwnaed rhai newidiadau er mwyn eu gwneud yn addas ar gyfer cyfweliadau wyneb yn wyneb a chyfweliadau dros y ffôn (o gymharu â'r ffurflen hunan-gwblhau ar gyfer Cyfrifiad 2001).

Gofynnir y cwestiynau ynglyn â sgiliau yn yr iaith Gymraeg yn ALlLlC yn union ar ôl y cwestiwn ynglyn â hunaniaeth genedlaethol[1] a chyn y cwestiwn ynglyn ag ethnigrwydd.

Y cwestiynau ynglyn â'r iaith Gymraeg sy'n ymddangos yn ALlLlC yw:

Ydych chi'n gallu deall Cymraeg llafar?
Ydw
Nac ydw

Ydych chi'n gallu siarad Cymraeg?
Ydw
Nac ydw

Ydych chi'n gallu darllen Cymraeg?
Ydw
Nac ydw

Ydych chi'n gallu ysgrifennu Cymraeg?
Ydw

[1] Mae'r cwestiwn ynglyn â chenedligrwydd yng Nghymru yn gofyn "Beth yw eich cenedligrwydd yn eich tyb chi? Dewiswch gymaint neu cyn lleied sy'n gymwys":
1. Cymro/Cymraes
2. Sais/Saesnes
3. Albanwr/wraig
4. Gwyddel/es
5. Prydeiniwr/wyr
6. Ateb arall

Nac ydw

2.3 Cwestiynau ynglyn â'r iaith Gymraeg mewn arolygon eraill

Yn ddiweddar, mae nifer o arolygon eraill wedi cynnwys cwestiynau ynglyn â sgiliau yn yr iaith Gymraeg. Er ei bod yn bosibl nad yw'r rhain wedi cael eu defnyddio'n helaeth i lywio polisi, mae'n ddefnyddiol cymharu eu methodoleg a'u canlyniadau â rhai Cyfrifiad 2001 ac Arolwg Gweithlu Llafur Lleol Cymru.

Drwy gymharu'r holl arolygon hyn, gellir gweld ystod lawn yr amcangyfrifon a phennu i ba raddau y mae methodoleg arolygon yn gyfrifol am amcangyfrifon gwahanol.

Yr arolygon a drafodir yn y papur hwn yw:

- Arolwg Cymdeithasol Cymru (Y Swyddfa Gymreig, 1992)
- Arolwg Omnibws Cymru (Ymchwil Beaufort ar ran y SYG, Medi 2000 a Thachwedd 2000)
- Arolwg Panel Cartrefi Cymru (sy'n rhan o Arolwg Panel Cartrefi Prydain) (ESRC, 1999)
- Arolwg Cyfweliadau Cartrefi Cymru (Y Swyddfa Gymreig, 1997)

Yn Nhabl 1, ceir union eiriad y cwestiynau ynglyn â'r iaith Gymraeg, y cwestiynau oedd yn eu rhagflaenu (er mwyn eu rhoi mewn cyd-destun), yr ymatebwyr, y math o gyfweliad a manylion y sampl ar gyfer pob un o'r prif ffynonellau hyn.

Tabl 1 Manylion y cwestiynau ynglyn â sgiliau yn yr iaith Gymraeg, yn ôl ffynhonnell; 1991-2002

	Geiriad y cwestiwn ynglyn â'r iaith Gymraeg	Categorïau'r atebion	Y cwestiwn a'i rhagflaenodd	Yr ymatebwyr	Y math o gyfweliad	Maint a manylion y sampl
Cyfrifiad (1991)	"A yw'r person yn siarad, yn darllen neu'n ysgrifennu Cymraeg?" Ticiwch y blwch/blychau priodol	1. Yn siarad Cymraeg 2. Yn darllen Cymraeg 3. Yn ysgrifennu Cymraeg 4. Ddim yn siarad, yn darllen neu'n ysgrifennu Cymraeg	Enw, rhyw a dyddiad geni	Pob preswyliwr sy'n 3 oed a throsodd yng Nghymru	Ffurflen hunan-gwblhau	N = 2,723,623 Cyfrifiad llawn
Arolwg Cymdeithasol Cymru (1992)	"Ydych chi'n siarad Cymraeg?" "Ydych chi'n gallu darllen Cymraeg?"	• Ydw • Nac ydw		Atebwyd y cwestiwn ar ran pawb rhwng 3-15 oed gan y penteulu, a holwyd y cwestiwn yn unigol i bawb dros 15 oed	Ffurflen hunan-gwblhau, ond cwblhawyd 80.5% yn ystod cyfweliadau wyneb yn wyneb	27,720 o holiaduron wedi'u cwblhau o blith hapsampl haenedig.
Arolwg Cymdeithasol Cymru (1992)	"Pa un o blith y canlynol sy'n eich disgrifio orau:"	1. Nid wyf yn gallu siarad Cymraeg o gwbl ac nid wyf erioed wedi ei siarad erioed 2. Nid wyf yn gallu siarad Cymraeg o gwbl yn awr er i mi ei siarad ar un adeg 3. Yr wyf yn gallu siarad ychydig o Gymraeg yn unig 4. yr ywf yn gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg Rwy'n siarad Cymraeg yn rhugl… 5. ….ond ni fyddaf byth neu'n anaml iawn yn ei siarad 6. ond o dro i dro yn unig y byddaf yn ei siarad 7. a byddaf yn ei siarad tua hanner yr amser 8. a byddaf yn ei siarad drwy'r amser neu'r rhan fwyaf o'r amser	Ydych chi'n darllen.. Llyfrau Cymreg Cylchgronau Cymraeg Papurau bro Cymraeg			

Arolwg Cyfweld â Chartrefi Cymru (1997)	A yw (enw'r ymatebydd) yn gallu siarad Cymraeg?	1. Ydy 2. Nac ydy	Enw, oedran, rhyw a statws priodasol	Preswylwyr cartrefi yng Nghymru sy'n 3 oed a throsodd	Cyfweliad wyneb yn wyneb	N=28,360 o gyfweliadau o blith hapsampl haenedig o 40000 o bobl (ymateb o 70.9%)
Arolwg Panel Cartrefi Cymru (1999)	"Ydych chi'n gallu deall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?"	1. Deall Cymraeg llafar 2. Siarad Cymraeg 3. Darllen Cymraeg 4. Ysgrifennu Cymraeg 5. Dim un o'r uchod	Gwlad enedigol eich rhieni	Preswylwyr cartrefi yng Nghymru sy'n 16 oed a throsodd	Cyfweliad wyneb yn wyneb	N = 4,368 Cynllun tebygolrwydd clystyrog a samplo systematig mewn dwy ran
Arolwg Omnibws Cymru (Medi 2000)	"Ydych chi'n siarad Cymraeg? Os Ydych: "Ydych chi'n rhugl?"	1. Ydw, yn rhugl 2. Ydw, ddim yn rhugl 3. Nac ydw	Cefndir diwylliannol a grwp ethnig (dim categori penodol ar gyfer Cymry)	Preswylwyr cartrefi yng Nghymru sy'n 16 oed a throsodd.	Cyfweliad wyneb yn wyneb	N = 1,002 Sampl cwota, gyda rheolaethau cwota plethedig ar gyfer oedran a dosbarth cymdeithasol o fewn rhyw
	"Ydych chi'n deall Cymraeg?"	1. Ydw 2. Nac ydw				
	"Ydych chi'n gallu darllen neu ysgrifennu Cymraeg?" (rhowch god ar gyfer pob un sy'n berthnasol)	1. Darllen Cymraeg 2. Ysgrifennu Cymraeg 3. Nac ydw, dim un o'r ddau				
Arolwg Omnibws Cymru (Tachwedd 2000)	"Ydych chi'n gallu deall Cymraeg llafar?" "Ydych chi'n gallu siarad Cymraeg?" "Ydych chi'n gallu darllen Cymraeg?" "Ydych chi'n gallu ysgrifennu Cymraeg?"	Ar gyfer pob cwestiwn: 1. Ydw 2. Nac ydw	Cwestiynau ynghylch cyfleustod ac elusen. Ymddangosodd cwestiynau ynghylch cenedligrwydd a grwp ethnig yn gynharach yn yr holiadur	Preswylwyr cartrefi yng Nghymru sy'n 16 oed a throsodd	Cyfweliad wyneb yn wyneb	N = 1,005 Sampl cwota, gyda rheolaethau cwota plethedig ar gyfer oedran a dosbarth cymdeithasol o fewn rhyw
Arolwg Gweithlu Llafur Lleol Cymru (2001/02)	"Ydych chi'n gallu deall Cymraeg llafar?" "Ydych chi'n gallu siarad Cymraeg?" "Ydych chi'n gallu darllen Cymraeg?" "Ydych chi'n gallu ysgrifennu Cymraeg?"	1. Ydw 2. Nac ydw	Cenedligrwydd	Preswylwyr cartrefi yng Nghymru (cynhyrchwyd tablau ar gyfer y rhai a oedd yn 3 oed a throsodd)	Cyfweliad wyneb yn wyneb	N = 48,809 Hapsampl tebygolrwydd

Cyfrifiad (2001)	“Allwch chi siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?” ✓ pob blwch sy’n berthnasol	1. Deall Cymraeg llafar 2. Siarad Cymraeg 3. Darllen Cymraeg 4. Ysgrifennu Cymraeg 5. Dim un o’r uchod	Grwp ethnig a chefndir diwylliannol	Holl drigolion Cymru (cynhyrchwyd tablau ar gyfer y rhai sy’n 3 oed a throsodd)	Ffurflen hunan-gwblhau	N = 2,8005,701 Cyfrifiad llawn

3 Cymharu canlyniadau cwestiynau ynglyn â'r iaith Gymraeg

Yn Nhablau 2 a 3 ceir yr amcangyfrifon gwahanol ar gyfer deall, siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg a gynhyrchwyd gan y ffynonellau amrywiol. Mae'r tablau hyn yn nodi graddau'r gwahaniaethau yn yr amcangyfrifon rhwng y ffynonellau.

Yn Nhabl 2 ceir amcangyfrifon ar gyfer y rhai sy'n 16 oed a throsodd ac yn Nhabl 3 ceir amcangyfrifon ar gyfer y rhai sy'n 3 oed a throsodd. Ni chynhyrchwyd canlyniadau ar gyfer y ddau grwp oedran hwn gan bob ffynhonnell. Felly, dim ond yr amcangyfrifon sydd ar gael a geir ym mhob tabl. Maent yn dangos y canlynol:

- Cynhyrchodd Cyfrifiad 2001 yr amcangyfrifon isaf ar gyfer y cyfrannau sy'n deall, yn siarad, yn darllen ac yn ysgrifennu Cymraeg o gymharu â ffynonellau eraill a gasglwyd ers 1997 **(Tablau 2 a 3)**.

- Roedd amcangyfrifon ALILIC dipyn yn uwch na ffigurau'r Cyfrifiad. Er nad oes gwallau samplo ar gael ar hyn o bryd ar gyfer yr amcangyfrifon hyn, mae maint y sampl yn golygu nad yw gwallau samplo yn unig yn debygol o gynnig esboniad am y gwahaniaeth hwn **(Tablau 2 a 3)**.

- Ceir y gwahaniaeth lleiaf ar gyfer ysgrifennu Cymraeg a'r gwahaniaeth mwyaf ar gyfer deall Cymraeg **(Tabl 2 a 3)**.

- Cynhyrchodd dau arolwg Omnibws Cymru amcangyfrifon tebyg i'r ALILIC ar gyfer darllen ac ysgrifennu Cymraeg. Gellir esbonio'r amcangyfrifon uwch o ran deall a siarad Cymraeg a geir yn omnibws Medi 2000 oherwydd y gwahaniaethau yng ngeiriad y cwestiwn **(Tablau 1 a 3).**

Tabl 2 Cymharu amcangyfrifon ar gyfer y gyfran sy'n deall, yn siarad, yn darllen ac yn ysgrifennu Cymraeg a gynhyrchwyd gan ffynonellau gwahanol; pobl sy'n 3 oed a throsodd

Cymru — Canrannau

	Cyfrifiad (1991)	Arolwg Cymdeithasol Cymru (1992)	Arolwg Cyfweld â Chartrefi Cymru (1997)	Arolwg Panel Cartrefi Cymru (1999)†	Arolwg Omnibws Cymru (Medi 2000)†	Arolwg Omnibws Cymru (Tachwedd 2000)†	Arolwg Gweithlu Llafur Lleol Cymru (2001/02)	Cyfrifiad (2001)	**Ystod** (ar gyfer arolygon a oedd yn gofyn cwestiynau am y 4 sgil)
Deall Cymraeg llafar	Nis gofynnwyd	Nis gofynnwyd	Nis gofynnwyd	-	-	-	35	24	24-35
Siarad Cymraeg	18	22	20	-	-	-	30	21	21-30 (9)
Darllen Cymraeg	16	23	Nis gofynnwyd	-	-	-	29	20	20-29(9)
Ysgrifennu Cymraeg	14	Nis gofynnwyd	Nis gofynnwyd	-	-	-	25	18	18-25 (7)

† Nid oedd data ar gael ar gyfer y grwp oedran hwn

Tabl 3 Cymharu amcangyfrifon ar gyfer y gyfran sy'n deall, yn siarad, yn darllen ac yn ysgrifennu Cymraeg a gynhyrchwyd gan ffynonellau gwahanol; pobl sy'n 16 oed a throsodd

Cymru — Canrannau

	Cyfrifiad (1991)	Arolwg Cymdeithasol Cymru (1992)	Arolwg Cyfweld â Chartrefi Cymru (1997)	Arolwg Panel Cartrefi Cymru (1999)	Arolwg Omnibws Cymru (Medi 2000)	Arolwg Omnibws Cymru (Tachwedd 2000)	Arolwg Gweithlu Llafur Lleol Cymru (2001/02)	Cyfrifiad (2001)	**Ystod** (ar gyfer arolygon a oedd yn gofyn cwestiynau am y 4 sgil)
Deall Cymraeg llafar	Nis gofynnwyd	Nis gofynnwyd	Nis gofynnwyd	27	35††	30	30	21	21-35 (14)
Siarad Cymraeg	17	19	18	22	30	25	24	17	17-27(10)
Darllen Cymraeg	15	21	Nis gofynnwyd	21	26	24	25	17	17-26 (11)
Ysgrifennu Cymraeg	13	Nis gofynnwyd	Nis gofynnwyd	17	20	20	21	15	15-21 (8)

†† Yn wahanol i'r arolygon eraill, dim ond i siaradwyr nad oeddynt yn rhugl ac i'r rhai a ddywedodd nad oeddynt yn siarad yr iaith o gwbl y gofynnwyd iddynt a oeddynt yn gallu deall Cymraeg. Er mwyn i'r canlyniadau fod yn gymaradwy â'r arolygon eraill, mae'r ffigurau a ddangosir yma wedi'u cyfrifo fel bod gyfran a allai ddeall Cymraeg= y gyfran a allai siarad Cymraeg yn rhugl + y rhai nad oeddynt yn siaradwyr Cymraeg rhugl a ddywedodd eu bod yn deall Cymraeg.

.

Mae Tablau 4 a 5 yn canolbwyntio ar y gwahaniaethau mewn amcangyfrifon ar gyfer sgiliau yn yr iaith Gymraeg rhwng ALlLlC a Chyfrifiad 2001. Maent yn cymharu'r gwahaniaethau yn ôl oedran ac ardal awdurdodau lleol, a restrir yn ddaearyddol:

- Mae holl amcangyfrifon ALlLlC gryn dipyn yn uwch na Chyfrifiad 2001 ar gyfer pob amcangyfrif **(Tablau 4 a 5)**.
- Nid yw'r gwahaniaethau rhwng y Cyfrifiad a'r ALILIC yn gyson ar gyfer pob grwp oedran. Ceir mwy o wahaniaeth rhwng amcangyfrifon yr arolygon ar gyfer y rhai o dan 25 oed nag ar gyfer grwpiau oedran hyn **(Tabl 4)**.
- Roedd y gwahaniaeth rhwng canlyniadau'r ALILIC a chanlyniadau'r Cyfrifiad hefyd yn amrywio'n sylweddol yn ddaearyddol. Ceir y gwahaniaethau mwyaf ym Merthyr Tudful; Ceredigion; Rhondda Cynon Taf; Conwy a Gwynedd. Nid oedd nodwedd gyffredin amlwg rhwng yr ardaloedd hyn am eu bod ar wasgar yn ddaearyddol ac roedd ganddynt gyfrannau gwahanol o bobl a oedd yn meddu ar sgiliau yn yr iaith Gymraeg, cyfraddau ymateb gwahanol o ran y Cyfrifiad a phroffiliau oedran gwahanol **(Tabl 5)**.
- Er bod y gwahaniaeth rhwng amcangyfrifon ALlLlC a'r Cyfrifiad ar gyfer pob sgil yn yr iaith Gymraeg yn amrywio yn ôl ardal yr awdurdod lleol, dangosodd y ddwy ffynhonnell mai Ynys Môn a Gwynedd oedd â'r cyfrannau uchaf o bobl a oedd yn deall Cymraeg a dangosodd y ddwy mai Sir Fynwy, Tor-faen, Blaenau Gwent a Chasnewydd oedd â'r cyfrannau isaf o bobl a oedd yn deall Cymraeg (er bod y drefn ychydig yn wahanol) **(Tabl 5)**.

Tabl 4 Cymharu amcangyfrifon ar gyfer y gyfran sy'n deall, yn siarad, yn darllen ac yn ysgrifennu Cymraeg yn ALILIC 2001/2002 a Chyfrifiad 2001 ar draws grwpiau oedran gwahanol

canrannau

	Deall Cymraeg			Siarad Cymraeg			Darllen Cymraeg			Ysgrifennu Cymraeg		
Grwpiau oedran	ALILIC	Cyfrifiad	Gwahaniaeth	ALILIC	Cyfrifiad	Gwahaniaeth	ALILIC	Cyfrifiad	Gwahaniaeth	ALILIC	Cyfrifiad	Gwahaniaeth
3 i 15	51	35	16	48	38	10	41	35	6	41	34	7
16 i 24	39	25	14	35	22	13	35	23	12	32	21	11
25 i 34	28	20	8	23	16	7	22	16	6	19	13	6
35 i 44	27	19	8	21	14	7	20	14	6	17	12	5
45 i 64	29	20	9	22	16	6	23	16	7	18	13	5
65 a throsodd	31	22	9	24	20	4	26	19	7	20	15	5
Cyfanswm	35	24	11	30	21	9	29	20	9	25	18	7

Tabl 5 Cymharu amcangyfrifon y gyfran sy'n deall, yn siarad, yn darllen ac yn ysgrifennu Cymraeg yn ALILIC 2001/2002 a Chyfrifiad 2001 ar draws awdurdodau lleol; Pawb sy'n 3 oed a throsodd

canrannau

	Deall Cymraeg			Siarad Cymraeg			Darllen Cymraeg			Ysgrifennu Cymraeg		
	Cyfrifiad	ALILIC	Gwahaniaeth	Cyfrifiad	ALILIC	Gwahaniaeth	Cyfrifiad	ALILIC	Gwahaniaeth	Cyfrifiad	ALILICC	Gwahaniaeth
Ynys Môn	64	74	10	60	66	6	54	59	5	51	55	4
Gwynedd	69	83	14	69	78	9	64	72	8	61	69	8
Conwy	35	50	15	29	41	12	27	36	9	25	31	6
Sir Ddinbych	31	44	13	26	38	12	25	34	9	22	29	7
Sir y Fflint	17	30	13	14	26	12	14	24	10	12	20	8
Wrecsam	19	28	9	15	23	8	15	21	6	12	18	6
Powys	25	34	9	21	28	7	20	28	8	17	25	8
Ceredigion	55	70	15	52	60	8	49	58	9	45	54	9
Sir Benfro	24	30	6	22	25	3	20	23	3	18	21	3
Sir Gaerfyrddin	56	64	8	50	53	3	46	51	5	40	46	6
Abertawe	18	27	9	13	20	7	14	21	7	11	17	6
Castell-nedd Port Talbot	23	33	10	18	24	6	19	26	7	15	21	6
Pen-y-bont ar Ogwr	14	25	9	11	18	7	14	21	7	10	17	7
Bro Morgannwg	13	27	14	11	20	9	12	21	9	10	18	8
Rhondda Cynon Taf	16	31	15	12	24	12	15	27	13	12	22	10
Merthyr Tydful	13	31	18	10	25	15	12	26	14	9	23	14
Caerffili	12	23	11	11	20	9	12	20	8	10	17	8
Blaenau Gwent	9	20	11	9	18	9	9	16	7	8	15	7
Tor-faen	10	19	9	11	17	6	10	16	6	9	14	5
Sir Fynwy	9	18	9	9	16	7	9	15	6	8	13	5
Casnewydd	9	20	11	10	18	8	9	16	7	8	15	5
Caerdydd	13	25	12	11	22	11	12	21	9	10	18	8
Cyfanswm	24	35	11	21	30	9	20	29	9	18	25	7

4 Esboniad o'r gwahaniaethau

4.1 Cysyniad ag iddo ddiffiniad amwys

Nid yw'r cysyniadau o ran 'deall', 'siarad', 'darllen' ac 'ysgrifennu' Cymraeg wedi'u diffinio'n dda. Er enghraifft, efallai y bydd person sy'n dweud ei fod yn deall Cymraeg ond yn deall ychydig eiriau neu efallai y bydd yn gwbl rhugl. Bydd yr ymatebwyr wedi cymhwyso eu diffiniadau eu hunain a byddant wedi penderfynu drostynt eu hunain pa un a yw eu sgiliau yn golygu eu bod yn gallu ateb "ydw" neu dicio'r blwch priodol.

Bydd y diffiniadau a ddefnyddiwyd gan bobl nid yn unig yn amrywio o berson i berson, ond bydd cynllun yr holiadur yn dylanwadu'n drwm arnynt. Gallai newidiadau bach yng ngeiriad a chyd-destun y cwestiwn effeithio ar yr atebion a roddir gan bobl. Trafodir effeithiau geiriad, trefn a chyd-destun cwestiynau yn fanwl isod.

O blith yr holl gysyniadau hyn, efallai mai 'deall' Cymraeg yw'r un a ddiffinnir waethaf oherwydd gallai gwmpasu ystod eang iawn o sgiliau. Nid yw'n syndod, felly, mai'r cysyniad hwn a gynhyrchodd yr ystod ehangaf o amcangyfrifon o 21% o oedolion yng Nghyfrifiad 2001 i 30% o oedolion yn ALlLlC. Mae'r diffiniad o 'ysgrifennu' Cymraeg ychydig yn well oherwydd mae angen dangos rhywfaint o allu ac felly ceir ystod lai o ganlyniadau: dywedodd 21% o oedolion [16 oed a throsodd] eu bod yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn ALlLlC o gymharu â 15% yng Nghyfrifiad 2001.

Rhydd Arolwg Cymdeithasol Cymru 1992 rywfaint o dystiolaeth o ran sut i ddehongli 'Ydych chi'n siarad Cymraeg?'. Er i 21.5% ddweud eu bod yn siarad Cymraeg, dywedodd 13.4% eu bod yn rhugl, dywedodd 3.5% eu bod yn gallu siarad eithaf tipyn a dywedodd 17% eu bod yn gallu siarad dim ond ychydig. Felly, dywedodd 33.9% eu bod yn gallu siarad ychydig o Gymraeg o leiaf tra bod 16.9% yn dweud eu bod yn gallu siarad eithaf tipyn neu eu bod yn rhugl.

4.2 Geiriad y cwestiwn a chategorïau ateb

Ar gyfer y rhan fwyaf o'r ffynonellau hyn, roedd geiriad y cwestiwn yn debyg iawn ond pan gafwyd gwahaniaethau, cynhyrchodd y ffynonellau ganlyniadau gwahanol iawn.

Gofynnodd Omnibws Cymru Medi 2000:

Ydych chi'n siarad Cymraeg? Os "Ydych" a ydych yn rhugl? Y categorïau ateb oedd:

1. Ydw, yn rhugl
2. Ydw, ddim yn rhugl
3. Nac ydw

Ar gyfer yr ymatebwyr nad oeddent yn siwr o'u sgiliau, cynigiwyd trydydd opsiwn sef 'ddim yn rhugl'. O ganlyniad, roedd yn bosibl cynnwys mwy o bobl yn y grwp "Ydw" cyffredinol ac felly cynhyrchodd yr arolwg amcangyfrif llawer uwch o'r gyfran o bobl sy'n siarad Cymraeg: dywedodd tua 35% eu bod yn siarad Cymraeg yn yr arolwg hwn o gymharu â 30% yn ALlLlC a 21% yng

Nghyfrifiad 2001.

Hefyd, newidiwyd geiriad y cwestiwn o 'Ydych chi'n gallu…' i 'Ydych chi'n…'. Fel arfer, byddai disgwyl i fwy o bobl 'allu' siarad Cymraeg (sy'n ymwneud â gallu) o gymharu ag 'yn' siarad Cymraeg (sy'n ymwneud â defnydd). Fodd bynnag, yn yr achos hwn, caiff effaith geiriad y cwestiwn ei negyddu gan effaith fwy y nifer ychwanegol o gategorïau ateb.

Yn Arolwg Cymdeithasol Cymru 1992 gofynnwyd a oedd ymatebwyr 'yn' siarad Cymraeg ac a oeddent 'yn gallu' darllen Cymraeg. Dywedodd 22 y cant o ymatebwyr eu bod **yn** siarad Cymraeg ond dywedodd cyfran uwch, sef 23%, eu bod yn **gallu** darllen Cymraeg. Ar gyfer pob ffynhonnell arall, roedd y gyfran a oedd yn gallu siarad Cymraeg yn uwch na'r gyfran a oedd yn gallu ei darllen. Felly, mae'n debygol bod y newid o 'yn' i 'yn gallu' wedi arwain at gynnydd yng nghyfran y bobl a ddywedodd eu bod yn meddu ar y sgil.

4.3 Trefn y cwestiynau

Roedd gan Omnibws Cymru Medi 2000 drefn ychydig yn wahanol i'r cwestiynau o gymharu â phob ffynhonnell arall. Ar gyfer pob ffynhonnell arall, gofynnwyd cwestiwn ynglyn â deall Cymraeg yn gyntaf a gofynnwyd y cwestiwn hwnnw i bob ymatebydd. Yn arolwg Omnibws Medi 2000, dim ond i'r rhai nad oeddent yn siarad Cymraeg yn rhugl y gofynnwyd y cwestiwn hwn. Tybiwyd y byddai pob siaradwr Cymraeg rhugl yn gallu deall yr iaith hefyd. Eto, cynhyrchodd yr ymagwedd hon amcangyfrifon llawer yn uwch ar gyfer cyfran y bobl sy'n deall Cymraeg o gymharu ag arolygon eraill (35% o gymharu â 30% yn ALILIC a 21% yn y Cyfrifiad).

4.4 Cyd-destun y cwestiwn

Gall cyd-destun cwestiwn effeithio ar yr atebion a roddir gan ymatebydd. Bydd y cyd-destun yn amrywio yn ôl prif bwnc yr arolwg, yr hinsawdd gymdeithasol a gwleidyddol bresennol, y ffordd y cyflwynwyd yr arolwg yn ogystal â'r atebion a roddwyd gan ymatebwyr ar gyfer cwestiynau blaenorol.

Ar gyfer yr arolygon hyn, roedd cyd-destun y cwestiynau ynglyn â'r iaith Gymraeg yn amrywio. Roeddent nid yn unig yn cwmpasu pynciau gwahanol iawn ond hefyd roedd rhai arolygon yn cynnwys cwestiynau ynghylch hunaniaeth Gymreig, ond nid eraill.

Yn ALILIC ac Arolwg Omnibws Cymru Tachwedd 2000, gofynnwyd cwestiwn ynglyn â chenedligrwydd yn gynharach yn yr holiadur. O ganlyniad, rhoddwyd cyfle i ymatebwyr ddweud eu bod yn Gymry. Mae'n bosibl y byddai'r ymatebwyr yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn meddu ar sgiliau yn yr iaith Gymraeg am eu bod newydd ddweud eu bod yn Gymry. Cynhyrchodd y ddau arolwg hwn amcangyfrifon tebyg iawn ar gyfer deall, siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg.

Ni ofynnwyd cwestiwn ynglyn â hunaniaeth genedlaethol yn Arolwg Panel Cartrefi Cymru ond gofynnwyd cwestiynau ynghylch gwlad enedigol rhieni'r ymatebydd yn union cyn y cwestiynau ynghylch yr iaith Gymraeg. Eto, os ganwyd dau riant yr ymatebwyr yng Nghymru ac os ganwyd hwy yng Nghymru hefyd, gallai olygu eu bod yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn deall, yn siarad, yn darllen ac yn ysgrifennu Cymraeg. Cynhyrchodd yr arolwg hwn amcangyfrifon ychydig yn is ar gyfer pob sgil yn yr iaith Gymraeg o gymharu

ag ALILIC ac Arolwg Omnibws Cymru Tachwedd 2000 ond cynhyrchodd amcangyfrifon uwch o gymharu â Chyfrifiad 2001 (dywedodd 27% o ymatebwyr Arolwg Panel Cartrefi Cymru a oedd yn 16 oed a throsodd eu bod yn gallu deall Cymraeg o gymharu â 30% yn yr un grwp oedran yn ALlLlC a 21% o ymatebwyr y Cyfrifiad).

Gofynnwyd cwestiwn ynglyn â grwp ethnig yn union cyn y cwestiwn yng Nghyfrifiad 2001. Er bod y cwestiwn hwn yn caniatáu i ymatebwyr ysgrifennu eu bod yn Gymry, ni chynhwyswyd blwch ticio ar gyfer Cymry. Yn wahanol i ALILIC ac Ominbws Cymru Tachwedd 2000, nid anogwyd ymatebwyr i ystyried eu hunaniaeth Gymreig cyn ateb y cwestiwn ynglyn â'r iaith Gymraeg. Felly, nid yw'n peri syndod i gyfran lai o bobl ddweud eu bod yn meddu ar sgiliau yn yr iaith Gymraeg yng Nghyfrifiad 2001 o gymharu ag ALILIC. Mae'n ddiddorol nodi hefyd na ofynnwyd cwestiwn ynglyn â hunaniaeth Gymreig yn Arolwg Cyfweld â Chartrefi Cymru cyn iddynt ateb cwestiwn ynglyn â pha un a oeddent yn siarad Cymraeg (ni ofynnwyd cwestiynau ynghylch deall, darllen neu ysgrifennu Cymraeg yn yr arolwg hwn). Dim ond cyfran ychydig yn uwch a gynhyrchwyd gan y Cyfrifiad ar gyfer pobl sy'n siarad Cymraeg na gan Arolwg Cyfweld â Chartrefi Cymru: 21% o gymharu ag 20% o'r rhai sy'n 3 oed a throsodd.

Gall materion cyfoes hefyd effeithio ar gyd-destun cwestiwn, er enghraifft, os yw'r cyfryngau neu'r byd gwleidyddol yn dangos llawer o ddiddordeb mewn materion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg.

4.5 Fformat yr arolwg

Cwblhawyd ffurflen Cyfrifiad 2001 gan ymatebwyr, fel arfer heb gyfeirio at gyfrifwr neu unrhyw berson arall a gyflogir gan y SYG. Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod y cwestiwn yn hawdd i'w ddeall ond, fel gyda phob ffurflen hunan-gwblhau, nid yw'n debygol y bydd ansawdd y data mor uchel â chyda chyfweliad wyneb yn wyneb. Yn arbennig, gan fod y rhan fwyaf o gwestiynau yn y Cyfrifiad yn gofyn am un ateb, efallai na fyddai'r ymatebwyr wedi sylweddoli bod angen iddynt dicio pob ateb cymwys ar gyfer y cwestiwn penodol hwn. Yn wir, yn ôl dadansoddiad rhagarweiniol o ddata'r Cyfrifiad nododd 3% o'r rhai sy'n 3 oed a throsodd yng Nghymru eu bod yn gallu siarad Cymraeg ond nad oeddent yn gallu ei deall. Mae'n debygol bod llawer o'r bobl hyn yn gallu deall Cymraeg llafar a'u bod wedi naill ai anghofio ticio'r blwch neu eu bod yn credu bod hynny'n amlwg. Ni cheisiodd system brosesu'r Cyfrifiad 'ddyfalu'r' ymatebion.

Ar gyfer ALILIC, cynhelir cyfweliadau naill ai wyneb yn wyneb gydag ymatebwyr yn eu cartrefi eu hun neu dros y ffôn. Lleolir y rhai sy'n cynnal cyfweliadau dros y ffôn yn Titchfield (Lloegr) a chânt eu monitro'n ofalus. Maent yn defnyddio'r un holiadur â'r rhai sy'n cynnal cyfweliadau wyneb yn wyneb. Mae cyfwelwyr maes yn tueddu i gael eu recriwtio'n lleol, ond nid ydynt o reidrwydd yn gallu siarad yr iaith. Yn amlwg, nid yw'n bosibl monitro cyfweliadau wyneb yn wyneb yn yr un ffordd â chyfweliadau dros y ffôn ond weithiau bydd hyfforddwr yn ymweld â chartrefi gyda chyfwelwyr maes.

Ym mhob maes a band oedran, dywedodd cyfran uwch o ymatebwyr ALILIC a gyfwelwyd dros y ffôn eu bod yn gallu deall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg o gymharu â'r rhai a gyfwelwyd wyneb yn wyneb: dywedodd tua 35% o ymatebwyr dros y ffôn eu bod yn gallu siarad Cymraeg o gymharu â 30% o ymatebwyr wyneb yn wyneb. Cafwyd gwahaniaethau tebyg ar gyfer

deall ac ysgrifennu Cymraeg. At hynny, dywedodd 36% o'r rhai a gyfwelwyd dros y ffôn eu bod yn gallu darllen Cymraeg o gymharu â 27% o'r rhai a gyfwelwyd wyneb yn wyneb. Roedd y gwahaniaeth hwn yn fwyaf nodedig ymysg y grwpiau oedran iau.

Gan fod yr holiaduron yn union debyg ar gyfer cyfweliadau dros y ffôn a chyfweliadau wyneb yn wyneb, mae'n annhebygol mai effaith yr holiadur a arweiniodd at hyn. Gallai ymatebwyr nad ydynt yn hyderus iawn o'u gallu yn yr iaith Gymraeg roi ateb gwahanol i gyfwelydd dros y ffôn, sy'n gyfrwng cymharol anhysbys nag i gyfwelydd a ddaeth i'w ty.

4.6 Data dirprwy

Er bod dros hanner (54%) yr ymatebion a roddir yn ALILIC yn cael eu rhoi wyneb yn wyneb, rhoddir yr holl ymatebion gan blant a chyfran fawr o ymatebion oedolion drwy ddirprwy. Mae ALILIC yn cofnodi pa un a gynhaliwyd cyfweliad dirprwy ar ran plentyn dan 16 oed, ar ran priod neu bartner neu ar ran rhywun arall.

Mae cyfran yr oedolion sy'n rhoi ymatebion dirprwy yn amrywio'n sylweddol yn ôl oedran. Mae dros hanner (53%) yr holl ymatebion a roddir gan y rhai rhwng 16 a 24 oed drwy ddirprwy (nad oedd yn briod) ac roedd 4% pellach yn ymatebion dirprwy a roddwyd gan briod neu bartner. Rhoddwyd tua thraean o ymatebion drwy ddirprwy ar gyfer grwpiau oedran eraill o gymharu â hyn. Yn y rhan fwyaf o'r achosion hyn, atebodd priod neu bartner ar eu rhan.

Mae'r ymatebion dirprwy a roddir gan bobl yn y grwp oedran 16-24 oed hwn yn amrywio'n sylweddol o gymharu â'r rhai a roddir yn bersonol: dim ond 32% o'r rhai a ymatebodd yn bersonol a ddywedodd eu bod yn gallu deall Cymraeg o gymharu â 46% o ymatebwyr sy'n ddirprwyon (nad oedd yn briod). Efallai mai'r rheswm am hyn yw bod rhieni sy'n ateb ar ran eu plant yn aml yn tybio bod eu plant wedi dysgu Cymraeg yn yr ysgol ac felly mae'n rhaid eu bod yn gallu ei deall, er efallai nad oedd rhai o'r plant hyn mor hyderus ynglyn â'u sgiliau.

Mae'n rhaid i'r penteulu, sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr holl wybodaeth yn gywir, lofnodi ffurflen y Cyfrifiad. Ni chyhoeddwyd unrhyw astudiaethau ar bwy gwblhaodd ffurflen Cyfrifiad 2001 yn y cartref neu ba mor dda y gwiriwyd y data ganddynt. Fodd bynnag, mae'n debygol bod patrwm yr ymatebion drwy ddirprwy yn y Cyfrifiad a'r ALILIC yn wahanol a gallai hyn esbonio rhai o'r gwahaniaethau rhwng y ffynonellau, yn enwedig ar gyfer y rhai o dan 25 oed.

4.7 Cwmpas yr arolwg

Dim ond cwmpasu'r boblogaeth sy'n byw mewn cartrefi a wna'r rhan fwyaf o arolygon ond mae'r Cyfrifiad hefyd yn cwmpasu'r boblogaeth sy'n byw mewn sefydliadau cymydol (fel ysbytai, ysgolion, carchardai a gwersylloedd y fyddin). Mae'r bobl sy'n byw mewn sefydliadau cymydol fymryn yn llai tebygol o ddeall Cymraeg na'r rhai mewn cartrefi. Er y tybir mai dim ond effaith fach iawn a gaiff y gwahaniaeth hwn o ran cwmpas, mae'n golygu y bydd cyfran ychydig yn uwch o bobl sy'n deall Cymraeg mewn arolygon sy'n cwmpasu cartrefi yn unig nag a gofrestrir gan y Cyfrifiad.

5 Ffactorau eraill a allai effeithio ar amcangyfrifon arolygon gwahanol

Mae nifer o ffactorau eraill i'w hsytyried wrth gymharu amcangyfrifon ar gyfer gallu sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Cynllun y sampl**. Mae'r arolygon sy'n defnyddio samplau cwota yn debygol o gynhyrchu canlyniadau ychydig yn wahanol i'r rhai sy'n defnyddio system samplo tebygolrwydd. Mae'r gallu i siarad/darllen/ysgrifennu/deall Cymraeg yn amrywio yn ôl lleoliad daearyddol, dosbarth cymdeithasol ac oedran. Os nad yw'r sampl cwota yn ystyried y ffactorau hyn yn ddigonol, mae'n debygol o greu tuedd o ran y canlyniadau. At hynny, efallai y bydd ffactorau eraill sy'n gysylltiedig â gallu sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg nas cyfrifwyd yn ddigonol yn y sampl cwota.

- **Cyfeiliornadau samplo**. Os yw maint y sampl ar gyfer arolwg arbennig yn fach, efallai y bydd cryn lwfans cyfeilliorni yn perthyn i'r amcangyfrif. Pan fo cyfeiliornadau samplo yn fawr, gall arolygon gynhyrchu amcangyfrifon gwahanol, ond gallai fod nad yw'r gwahaniaethau yn arwyddocaol. Nid oes unrhyw cyfeiliornadau samplo ar gael ar hyn o bryd ar gyfer amcangyfrifon ALILIC o ran sgiliau yn yr iaith Gymraeg. Fodd bynnag, mae maint yr arolwg yn golygu nad yw'n debygol y byddant yn fwy nag un neu ddau bwynt canran ac ni fyddant yn esbonio'r gwahaniaeth rhwng ffigurau'r Cyfrifiad a'r ALILIC eu hunain.

- **Tuedd yn sgîl diffyg ymateb**. Os yw nodweddion y rhai sy'n ymateb i arolwg yn wahanol i'r rhai nad ydynt yn ymateb, gallai hyn arwain at duedd yn sgîl diffyg ymateb. Mae hyn yn debycach mewn arolygon â chyfraddau ymateb isel a gall effeithio ar yr amcangyfrifon. Bydd arolygon y SYG yn cael eu pwysoli i ganiatáu am y diffyg ymateb hwn yn rheolaidd. Gallai arolygon nad ydynt wedi eu pwysoli gynhyrchu canlyniadau gwahanol.

- **Trefn wahanol**. Nid yw pob arolwg yn gofyn i bawb a ydynt yn siarad/yn darllen/yn ysgrifennu/yn deall Cymraeg ac yn hytrach maent yn gofyn y cwestiynau hyn i bobl benodol ac yna'n gwneud tybiaethau ynghylch pobl eraill. Bydd hyn yn effeithio ar amcangyfrifon.

- **Fformatau gwahanol**. Gall y fformat (cyfweliad wyneb yn wyneb, cyfweliad dros y ffôn, holiadur hunan-gwblhau) a ddefnyddir i gasglu data effeithio ar yr ymateb a roddir gan bobl.

- **Gwahaniaethau mewn arferion golygu**. Pan gynhelir cyfweliad wyneb yn wyneb gan ddefnyddio cyfrifiadur, mae rhaglen y cyfweliad yn aml yn cynnwys nifer o wiriadau a fydd yn tynnu sylw'r cyfwelwyr at anghysondebau yn atebion yr ymatebwyr. Er enghraifft, gallai fod yn bosibl gofyn i gyfwelwyr wirio ateb ymatebydd os byddant yn dweud eu bod yn siarad Cymraeg ond nad ydynt yn ei deall. Yn yr un modd, mae angen golygu holiaduron hunan-gwblhau yn aml er mwyn delio ag anghysondebau neu ymatebion annhebygol. Yn y ddau achos hyn, gall arferion golygu gwahanol arwain at ganlyniadau gwahanol.

- **Gwahaniaethau amser**. Mae'n nodedig bod y data diweddaraf yn cynhyrchu amcangyfrifon uwch na'r data a gasglwyd beth amser yn ôl. Mae'r polisïau diweddar a pharhaus sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn debygol o fod wedi cynhyrchu amcangyfrifon ar gyfer 2000/2001 a oedd

yn uwch na'r rhai ar gyfer blynyddoedd blaenorol.

6 Pa ffynhonnell data i'w defnyddio

Ni cheir un ffynhonnell ddymunol ar gyfer data sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg. Ceir gwahaniaethau rhwng amcangyfrifon y Cyfrifiad ac amcangyfrifon ALILIC ar gyfer deall, siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg ond fe'u cynhyrchir yn sgîl y gwahaniaethau yn y ffordd y caiff cwestiynau eu dehongli ac mae'n bwysig deall y gwahaniaethau hyn wrth ddehongli'r data. Mae'r ymatebwyr â gallu cyfyngedig yn y Gymraeg yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gallu deall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg os gofynnwyd cwestiwn iddynt ynglyn â'u hunaniaeth Gymreig eisoes, fel yn ALILIC. Pan na ofynnir cwestiwn tebyg i ymatebwyr, fel yng Nghyfrifiad 2001, bydd yr ymatebwyr â gallu cyfyngedig yn y sgiliau hyn yn llai tebygol o ddweud eu bod yn meddu arnynt.

Nid yw'r gwahaniaethau rhwng canlyniadau'r Cyfrifiad a chanlyniadau'r arolwg yn gyson yn ôl oedran neu ranbarth. O ganlyniad, dylid trin canlyniadau'r ddwy ffynhonnell ar wahân bob tro.

7 Casgliadau

Mae amcangyfrifon ALILIC ar gyfer cyfran y bobl sy'n meddu ar sgiliau yn yr iaith Gymraeg dipyn yn uwch nag amcangyfrifon y Cyfrifiad. Ar gyfer rhai grwpiau oedran a rhanbarthau mae dros 10 y cant o wahaniaeth yn yr amcangyfrifon hyn. Mae'r gwahaniaethau rhwng y ffynonellau mwyaf nodedig ar gyfer pobl ifanc sy'n 24 oed neu'n iau.

Ni cheir un esboniad yn unig ar gyfer y gwahaniaeth hwn, ond mae'n debygol i gyfuniad o ffactorau ei achosi: fformat yr arolwg, cyd-destun y cwestiynau am yr iaith Gymraeg, effaith atebion drwy ddirprwy, gweithdrefnau golygu a chwmpas yr arolwg.

Nid oes un ffynhonnell yn fwy cywir na'r llall, ond mae amcangyfrifon ALILIC yn debygol o gynnwys mwy o bobl â sgiliau cyfyngedig, neu bobl nad ydynt yn hyderus ynglyn â'u sgiliau, na Chyfrifiad 2001.

Ni ddylid cymysgu amcangyfrifon ALILIC a'r Cyfrifiad oherwydd ymddengys eu bod yn mesur pethau ychydig yn wahanol ac mae'r gwahaniaeth rhwng yr amcangyfrifon a gynhyrchwyd gan y ddwy ffynhonnell yn amrywio yn ôl oedran a rhanbarth.

Mae maint y sampl yn golygu bod y Cyfrifiad a'r ALILIC yn ddangosyddion da ar gyfer sgiliau yn yr iaith Gymraeg, yn enwedig wrth olrhain newidiadau gyda threigl amser. Fodd bynnag, mae angen gofyn cwestiynau manylach er mwyn arfarnu'r polisi iaith Gymraeg yn fanwl.